

CAFFAEL TIR, PRIFFYRDD, CYMRU

2009 Rhif 55

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
CEFNNFFORDD ABERGWAUN I FANGOR (YR
A487) (FFORDD OSGOI PORTHMADOG,
MINFFORDD A THREMADOG) 2009**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

Gwnaed

18 Mehefin 2009

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn -

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250, 254 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) fel y'u hestynnwyd ac fel y'u hatodwyd gan adran 250 o'r Ddeddf honno ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981(2) a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 1 iddi, a phob pŵer galluogi arall(3), drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion:

- (a) adeiladu darnau o gefnffordd newydd i'r de o Dremadog ac i'r gogledd o Borthmadog a Minffordd ac adeiladu pont dros Afon Glaslyn, oll yn ardaloedd cyngor tref a chynghorau cymuned Tref Porthmadog, Penrhyndeudraeth a Llanfrothen yn Sir Gwynedd, mewn cysylltiad â gwella'r gefnffordd ac yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y cymunedau hynny a'r Sir honno, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;
- (c) gwella'r Gefnffordd yn y dref honno a'r cymunedau hynny yn y Sir honno;
- (ch) gwneud gwaith ar gyrsiau dwr mewn cysylltiad ag adeiladu'r gefnffordd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;

(d) defnydd gan Weinidogion Cymru yn gysylltiedig â'r gwaith adeiladu a'r gwaith gwella hwnnw a gwneud unrhyw waith arall a grybwyllir uchod; ac

(dd) lliniaru effeithiau andwyol priffyrdd neu briffyrdd arfaethedig ar eu hamgylchoedd.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (ill dau gyda'u mapiau) wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 5.

2. Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i hyn ac a amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map a chaiff yr hawliau newydd dros dir sydd i'w prynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn eu disgrifio yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythien o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a godir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag sy'n gymesur ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw â hanner dyfnder yr wythien o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw neu 37 metr, p'un bynnag yw'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y map" ("*the map*") yw'r map sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog) 2009." ac a lofnodwyd gan swyddog o'r awdurdod caffael a'i selio â sêl yr awdurdod caffael a'i adneuo yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487);

ystyr “y gefnffordd newydd” (*“the new trunk road”*)
yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â'r
Gorchymyn Cefnffordd;

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” (*“the Trunk Road
Order”*) yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i
Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog,
Minffordd a Tremadog a Thynnu Statws Cefnffordd)
2009;

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (*“the Side
Roads Order”*) yw Gorchymyn Cefnffordd
Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi
Porthmadog, Minffordd a Thremadog) (Ffyrdd Ymyl)
2009.

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu
Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd
Abergwaun i Fangor (yr A487) Ffordd Osgoi
Porthmadog, Minffordd a Thremadog) 2009.

Dilyswyd SEL GORFFORAETHOL
GWEINIDOGION CYMRU sydd wedi'i gosod isod
gan

Llofnodwyd gan un o swyddogion Llywodraeth
Cynulliad Cymru

Dyddiedig 18 Mehefin 2009

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1980 p.66

(2) 1981 p.67

(3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff
30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn
bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

